

# SWYDDOG CYMORTH CYMUNEDOL YR HEDDLU

HEDDLU DE CYMRU • SOUTH WALES POLICE



CADW DE CYMRU'N **DDIOGEL** • KEEPING SOUTH WALES **SAFE**

## PECYN CANLLAW AR RECRIWTIO

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddeall y broses o wneud cais am rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) o'r dechrau i'r diwedd.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o BOB rhan o'r gymuned sydd â diddordeb mewn dechrau gyrfa gyda Heddlu De Cymru.

Rydym yn ymrwymedig i roi cyfle cyfartal ac, wrth wneud hynny, yn cefnogi ac yn cymryd camau cadarnhaol i annog ceisiadau gan aelodau o'r grwpiau hynny sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd.

## Beth sydd angen i mi ei wybod?

### Y Broses Recriwtio

Y cam cyntaf fydd proses gwneud cais ar-lein sy'n cynnwys sawl prawf ar-lein a ffurflen gais. Rhaid cwblhau pob prawf yn llwyddiannus cyn y gallwch chi gwblhau'r ffurflen gais.

## Cymhwysedd

Bydd rhan gyntaf y broses gwneud cais ar-lein yn gofyn cyfres o gwestiynau er mwyn penderfynu a ydych yn gymwys i wneud cais.

- **Dinasyddiaeth/Byw yn y DU** – Rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig, dinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, dinesydd y Gymanwlad neu'n wladolyn tramor heb gyfyngiadau ar eich arhosiad yn y Deyrnas Unedig. Hefyd, rhaid eich bod wedi bod yn byw yn y DU am gyfnod di-dor am dair blynedd yn union cyn gwneud cais.
- **Oedran** – Rhaid i chi fod yn 18 oed o leiaf i ddod yn PCSO. Nid oes terfyn oedran uchaf
- **Ymlyniad wrth Blaid** – Mae gan Heddlu De Cymru bolisi o wahardd unrhyw un o'n swyddogion rhag bod yn aelodau o Blaid Genedlaethol Prydain, neu sefydliad tebyg y gall ei nodau, ei amcanion neu ei ddatganiadau fod yn groes i'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Os ydych yn aelod o Blaid Genedlaethol Prydain neu wedi bod yn rhan ohoni yn flaenorol, mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod.
- **Rhybuddion ac Euogfarnau** – Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i ymuno â'r heddlu o hyd os bydd gennych fân rybuddion/euogfarnau, ond bydd rhai troseddau ac amodau yn eich gwneud yn anghymwys. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sydd wedi cael rhybudd ffurfiol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, neu sydd wedi cyflawni trosedd dreisgar neu drosedd trefn gyhoeddus. Wrth wneud ein penderfyniadau, cawn ein llywio gan Feini Prawf Cymhwysedd 03/2012 yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Gwella Plismona ar gyfer rôl cwnstabl yr heddlu 2019.

## HEB FARC GWARCHOD

- **Statws Ariannol** – Caiff statws ariannol pob ymgeisydd ei gadarnhau. Cynhelir y gwiriadau hyn am fod gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fynediad i wybodaeth freintiedig, a all eu gwneud yn agored i lygredigaeth. Gwrthodir unrhyw ymgeiswyr y mae ganddynt ddyfarniadau Llys Sirol cyfredol yn eu herbyn, neu sydd wedi'u cofrestru'n fethdalwyr â dyledion heb eu talu. Os bydd gennych ddyledion methdalau sydd wedi'u gollwng, yna bydd angen i chi ddarparu Tystysgrif Boddhad gyda'ch cais. Ni chaiff ymgeiswyr sy'n destun Trefniant Gwirfoddol Unigol (IVA) cyfredol eu hystyried.
- **Tatwau** – Bydd ymgeiswyr â thatwau gweladwy yn gymwys i gael eu penodi o bosibl. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol, gan ystyried nifer, natur, maint, amlygrwydd, ymddangosiad a lleoliad y tatwau. Ni ddylai'r tatwau fod yn dramgwyddus i gydweithwyr nac aelodau o'r cyhoedd nac ychwaith danseilio urddas eich rôl yn yr Heddlu. Caiff tatwau ar y gwddf, yr wyneb neu'r dwylo eu hystyried yn annerbyniol o hyd, ond mae'n bosibl y rhoddir ystyriaeth o dan rai amgylchiadau, o ystyried maint, natur, ac amlygrwydd y tatw. Os bydd ymgeiswyr yn dewis cael unrhyw datwau ychwanegol yn ystod y broses recriwtio, ar ôl cwblhau'r gwiriadau cymhwysedd, yna mae ganddynt gyfrifoldeb i roi gwybod i'r Adran Adnoddau Dynol a rhoi ffotograffau addas y bydd angen eu harchwilio.
- **Cymwysterau** – Er mwyn ymuno â'r heddlu yn y rôl hon, mae angen cymhwyster lefel 2 neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg (Gradd A-C). Noder y bydd angen i chi lanlwytho tystiolaeth o'ch tystysgrif Mathemateg a Saesneg lefel 2 pan fyddwch yn cyflwyno eich cais. Os nad ydych yn meddu ar dystysgrif ddilys, rhaid i chi gael un cyn dechrau'r broses gwneud cais. Os nad oes gennych gymhwyster lefel 2, neu os nad oes gennych gopi o'ch tystysgrif, bydd angen i chi sefyll prawf ar-lein a fydd yn profi eich gallu academaidd i weithio ar lefel 2. Os byddwch yn cwblhau'r prawf ar-lein yn llwyddiannus, gallwch fwrw ati gyda'r broses gwneud cais.

## Profion Ar-lein

Bydd yr ymgeiswyr a fydd yn cwblhau'r gwiriadau cymhwysedd yn llwyddiannus yn cael eu gwahodd i gwblhau'r profion recriwtio ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- **Holiadur Arddulliau Ymddygiad (BSQ)** – Mae Holiadur Arddulliau Ymddygiad yr Heddlu yn mesur eich ymddygiad a'ch dewisiadau arferol yn y gwaith. Diben yr holiadur yw asesu a oes gennych yr ymddygiadau a'r agweddau cywir i fod yn effeithiol yn eich swydd. Mae'r holiadur yn eich gwahodd i adolygu nifer o ddatganiadau a nodi pa ddatganiadau rydych yn cytuno'n llwyr/anghytuno'n llwyr â nhw ar raddfa symudol.

## HEB FARC GWARDHOD

Yn yr holiadur, cyflwynir y datganiadau hyn am eich ymddygiad arferol yn y gwaith mewn blociau o bedwar. Bydd angen i chi ddarllen pob datganiad yn ofalus ac yna benderfynu i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad gan ddefnyddio'r raddfa isod.

- \* Anghytuno'n Llwyf
- \* Anghytuno'n Gryf
- \* Anghytuno i Raddau
- \* Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno
- \* Cytuno i Raddau
- \* Cytuno'n Gryf
- \* Cytuno'n Llwyf

Yn dibynnu ar eich ymatebion, mae'n bosibl hefyd y gofynnir i chi raddio datganiadau penodol o ran pa mor dda y maent yn disgrifio eich ymddygiad arferol yn y gwaith. Nid oes cyfyngiad amser, ond dylai gymryd tua 15-20 munud i gwblhau'r holiadur. Nid oes angen unrhyw wybodaeth arbenigol arnoch i gwblhau'r prawf.

- **Prawf Barn Sefyllfaol (SJT)** – Mae Prawf Barn Sefyllfaol yr Heddlu yn asesu eich sgiliau i lunio barn a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â sefyllfaoedd sy'n ymwneud â'r swydd. Yn y prawf, cyflwynir cyfres o senarios i chi a fydd yn adlewyrchu sefyllfaoedd heriol y gallech eu hwynebu wrth weithio fel PCSO. Cyflwynir pedwar cam posibl ar gyfer pob senario i chi. Gofynnir i chi raddio pob un o'r pedwar cam o ran ei heffeithiolrwydd i fynd i'r afael â'r senario. Dangosir y raddfa y dylid ei defnyddio i raddio'r camau isod.
  - \* **Gwrthgynhyrchiol** – Cam amhriodol a fydd yn cael effaith negyddol neu'n gwneud y sefyllfa'n waeth.
  - \* **Aneffeithiol** – Cam diwerth na fydd yn helpu'r sefyllfa.
  - \* **Effeithiol i ryw raddau** – Cam a fyddai'n cael peth effaith gadarnhaol ar y sefyllfa.
  - \* **Effeithiol** – Cam a fyddai'n cael effaith gadarnhaol resymol ar y sefyllfa.
  - \* **Effeithiol lawn** – Un o'r camau gorau y gellid eu cyflawni mewn ymateb i'r sefyllfa.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth arbenigol arnoch i gwblhau'r prawf. Dylai eich ymatebion fod yn gwbl seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir ym mhob senario.

Os byddwch yn cwblhau'r profion ar-lein yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd i gael cyfweliad.

## Cyfweliad

Bydd y cyfweliad yn para hyd at 20 munud; yn ystod y cyfweliad, gofynnir pedwar cwestiwn i chi am y ffordd rydych wedi mynd i'r afael â sefyllfaoedd penodol yn y gorffennol. Bydd y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r meysydd cymhwysedd isod:

- **Gwasanaethu'r Cyhoedd**

Dangos cred wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd.

Deall disgwyliadau, anghenion a phryderon newidiol cymunedau gwahanol a cheisio mynd i'r afael â nhw.

Meithrin hyder y cyhoedd drwy siarad â phobl mewn cymunedau lleol er mwyn ystyried eu safbwyntiau a chwalu'r rhwystrau rhyngddynt hwy a'r heddlu.

Deall effaith plismona ar gymunedau gwahanol a'r buddiannau iddynt a nodi'r ffordd orau o ddarparu'r gwasanaethau iddynt.

Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd.

- **Proffesiynoldeb**

Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu.

Cymryd perchnogaeth wrth ddatrys problemau, gan ddangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd ac a allai fod yn ymfflamychol.

Gweithredu gan ddefnyddio'ch blaengaredd i fynd i'r afael â materion, gan ddangos agwedd gref at waith a gwneud ymdrech ychwanegol pan fo angen.

Cynnal safonau proffesiynol, gan fod yn onest a moesegol, a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol.

Bod yn ddigyffro a phroffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro a bod yn barod i gamu ymlaen a chymryd rheolaeth pan fydd angen.

- **Agored i Newid**

Bod yn gadarnhaol ynghylch newid, gan ymateb mewn modd hyblyg ac addasu i ffyrdd gwahanol o weithio. Dod o hyd i ffyrdd gwell, mwy cost effeithiol o wneud pethau, gan wneud awgrymiadau ar gyfer newid.

Datrys problemau mewn ffordd arloesol a chreadigol.

Gofyn am adborth a gweithredu arno, gan ddysgu o brofiad a datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun.

- **Darparu Gwasanaethau**

Deall amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad a sut mae gwaith yn cyd-fynd â'r rhain. Cynllunio a threfnu tasgau'n effeithiol, gan fabwysiadu dull strwythuredig a threfnus o sicrhau canlyniadau

Rheoli tasgau lluosog yn effeithiol drwy ystyried pethau ymlaen llaw, gan flaenoriaethu a rheoli amser yn dda.

Canolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni, gweithio'n gyflym ac yn gywir a gofyn am arweiniad pan fo'n briodol.

- **Gwneud Penderfyniadau**

Casglu, dilysu ac asesu'r holl wybodaeth briodol sydd ar gael i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd.

Ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl cyn gwneud penderfyniadau clir ac amserol y gellir eu cyfiawnhau.

Adolygu penderfyniadau, o ystyried gwybodaeth newydd ac amgylchiadau newidiol. Cydbwysu risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau.

Arfer disgrisiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd.

- **Cydweithio ag Eraill**

Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr.

Yn hawdd mynd atoch, gan ddatblygu cydberthnasau gwaith cadarnhaol.

Gwrando'n ofalus a gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth, gan leisio eich barn eich hun yn gadarnhaol ac adeiladol.

Darbwylllo pobl drwy bwysleisio manteision dull gweithredu penodol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a rheoli eu disgwyliadau.

Bod yn foengar, yn gwrtais ac yn ystyriol, gan ddangos empathi a thosturi.

Trin pobl fel unigolion, gan fynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol.

Trin pobl â pharch ac urddas, gan ymdrin â nhw'n deg a heb ragfarn drwy beidio â beirniadu, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.



Efallai y gofynnir i chi hefyd am waith a moeseg Heddlu De Cymru. Caniateir hyd at 5 munud i chi ateb pob cwestiwn; caiff yr amser ei fonitro gan y cyfwelydd, a fydd yn eich stopio os byddwch yn mynd dros 5 munud. Efallai y bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau dilynol pellach i chi er mwyn eich cynorthwyo i roi ymateb cyflawn. Wrth ystyried eich ymatebion i gwestiynau'r cyfweliad, ceisiwch ddewis enghreifftiau y byddwch yn teimlo'n gyfforddus i'w trafod gyda'r cyfwelydd.

Blaenoriaethau a moeseg gwaith Heddlu De Cymru – Ymgyswngwch â'r rhain drwy ymchwilio i wybodaeth ar y wefan [www.south-wales.police.uk](http://www.south-wales.police.uk)

Os byddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, byddwn yn dechrau cynnal gwiriadau cyn cael eich cyflogi.

## Gwiriadau Cyn Cael Eich Cyflogi

- **Fetio** - Byddwch yn cwblhau ffurflenni mewn perthynas â gwybodaeth fetio diogelwch, a chaiff gwiriadau a chliriadau eu cwblhau gan ein Hadran Fetio. Rhaid i'n Huned Fetio gynnal gwiriadau cefndirol gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich cais yn eich erbyn chi a'ch teulu gan ddefnyddio systemau'r Heddlu. Bydd y rhain yn cynnwys euogfarnau/rhybuddion a fetio ariannol.
- **Prawf Ffitrwydd** - Bydd angen i chi fod mewn cyflwr eithaf da i lwyddo yn y prawf ffitrwydd i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Gan y bydd angen i chi redeg pellter rhesymol, byddwch yn cael eich profi, fel rhan o'ch asesiad, i sicrhau bod eich lefelau ffitrwydd yn ddigon da. Mae'n brawf trylwyr, ond peidiwch â phoeni, nid oes angen i chi fod yn eithriadol o ffit. Yr unig beth rydym am ei wneud yw sicrhau y byddech yn gallu cyflawni eich dyletswyddau yn gorfforol. Bydd gofyn i chi redeg yn ôl ac ymlaen ar hyd trac 15 metr gan gadw amser â chyfres o synau bipian, a fydd yn mynd yn gyflymach hyd at lefel 5/4.
- **Fetio Biometrig** – Bydd gofyn i chi roi sampl DNA ac ôl bys. Ar y diwrnod, byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen gydsynio i gymryd eich olion bysedd a sampl o'ch DNA at ddibenion chwiliad ar hap ac i'ch olion bysedd a'ch proffil DNA gael eu cadw ar Gronfa Ddata Dileu'r Heddlu (PEDb). Cymerir olion bysedd a samplau DNA er mwyn gwneud chwiliad ar hap yn erbyn y cronfeydd data lleol a chenedlaethol cyn i chi ymuno â'r heddlu. Gwneir hyn er mwyn sicrhau nad ydych wedi dod i sylw'r heddlu mewn modd andwyol o'r blaen, nad ydych wedi ein hysbysu ohono, a hefyd nad ydych yn gysylltiedig ag unrhyw leoliadau troseddau sydd heb eu datrys.

- **Prawf Cyffuriau** – Gofynnir i chi gael prawf cyffuriau a rhoi gwybodaeth am unrhyw feddyginiaeth rydych yn ei chymryd o bosibl. Bydd hyn yn cynnwys rhoi samplau gwallt i'w profi.
- **Asesiad Meddygol** – Mae angen i chi fod yn iach i gael eich derbyn fel PCSO. Mae angen bod yn iach yn gorfforol i gyflawni dyletswyddau PCSO, ac felly bydd angen eich archwilio i sicrhau nad oes gennych broblemau iechyd difrifol. Unwaith y byddwch wedi llwyddo i gwblhau pob rhan arall o'r broses recriwtio, a'n bod yn barod i gyflwyno cynnig amodol o benodiad i chi, byddwch yn cael amseroedd apwyntiad ar gyfer prawf llygaid ac archwiliad meddygol - bydd hyn yn cynnwys gwiriad BMI (Mynegai Crynswth Corfforol). Mae amrediad pwysau iach wedi'i seilio ar fesuriad a elwir yn fynegai crynswth corfforol (BMI). Gellir canfod hyn os gwyddoch beth yw eich pwysau a'ch taldra. Cyfrifir hyn drwy rannu eich pwysau (mewn cilogramau) â'ch taldra (mewn metrau sgwâr). Mae canllawiau a siartiau hawdd eu defnyddio ar gyfer cyfrifo eich BMI ar gael ar wefan y GIG. Yn ôl y GIG, mae BMI rhwng 18.5 a 24.9 yn awgrymu pwysau iach a normal. Golyga hyn nad yw eich corff mewn perygl o ddiodeff afiechyd sy'n gysylltiedig â phwysau. Y Swyddfa Gartref sy'n pennu'r safonau BMI. Mae cylchlythyr 59/2004 cyfredol y Swyddfa Gartref yn nodi bod hyn rhwng 18 a 30. Os nad yw ymgeiswyr yn cyrraedd y safon hon, efallai y bydd cais yn cael ei ohirio neu ni chânt eu penodi.

Ni chaiff ymgeiswyr PCSO sydd â BMI dros 32 eu hystyried yn addas oni bai bod eu canran braster yn llai na 30% i ddynion neu'n 36% i fenywod. Bydd methu â chyrraedd y safonau meddygol a golwg yn golygu na allwch gael eich penodi.

Wrth gael prawf llygaid, rhaid i recriwtiaid newydd gael golwg 6/12 yn eu llygaid dde neu chwith, neu o leiaf golwg 6/6 yn y ddwy lygad. Rhaid i'r rhai sy'n gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd gael golwg 6/36 yn y ddwy lygad pan na fyddant yn gwisgo'u sbectol neu eu lensys cyffwrdd.

- **Geirdaon Cyflogaeth** – Rhaid i eirdaon gwmpasu o leiaf 3 blynedd o hanes cyflogaeth. Os na fyddwch wedi cael eich cyflogi am 3 blynedd, byddwn yn ceisio geirdaon personol ac addysgol ychwanegol. Ni fyddwn yn ysgrifennu at eich cyflogwr presennol oni bai eich bod wedi rhoi eich caniatâd i ni wneud hynny.

## Ffitio Lifrai a Cherdyn Adnabod

Os byddwch yn cwblhau'r holl wiriadau cyn cael eich cyflogi yn llwyddiannus, byddwch yn cael eich gwahodd wedyn i apwyntiadau ffitio lifrai a chael cerdyn adnabod.